

Adroddiad Ymgynghori

A469 Llwybr Beics Gyfochr â Ffordd – Maes y Coed Road

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion uchod rhwng 22 Medi 2017 a 13 Hydref 2017.

Derbyniwyd tri ymateb. Mae'r pryderon a'r sylwadau wedi eu crynhoi isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Y problem: Pryder y gallai'r darnau amddiffyn y lôn beics effeithio ar y mynediad at eiddo ar Maes y Coed Road.

Ymateb: Ni roddir y darnau amddiffyn mewn unrhyw le a fydd yn effeithio ar y mynediad presennol at eiddo ar Maes y Coed Road. Mae cynlluniau wedi eu haddasu er mwyn sicrhau bod y lonydd beics sy'n mynd ar draws mynediad at eiddo yn gynghorol (llinell wen doredig) a bod hawl i gerbydau eu croesi.

Y problem: Ar hyn o bryd, niferoedd isel o feicwyr sy'n defnyddio Maes y Coed Road.

Ymateb: Mae Maes y Coed Road yn ffordd brysur gyda thraffig cerbydau trwm. Mae hyn yn debygol o fod yn cyfyngu ar niferoedd posibl o feicwyr a fyddai'n defnyddio'r ffordd.

Y problem: Bydd y newidiadau i gynllun y ffordd yn gostwng hyd Maes y Coed Road lle caiff traffig giwio mewn dwy lôn wrth fynd tuag at gyffordd Caerphilly Road ac yn gwaethygu'r tagfeydd ac effeithio ar fynediad i fusnesau ar Maes y Coed Road a'i gwneud yn anos i gerbydau droi i ac o Armoury Drive.

Ymateb: Mae gwaith ailfodelu wedi mynd rhagddo fel rhan o broses datblygu'r cynllun, sy'n dangos na fydd gosod lonydd beics ar Maes y Coed Road yn effeithio'n sylweddol ar gapasiti'r gyffordd.

Y problem: Nid yw'r llinellau melyn dwbl yng nghyffordd Armoury Drive yn ddigon i atal cerbydau rhag rhwystro'r gyffordd.

Ymateb: Mae TRO ar waith ar hyn o bryd ar gyfer llinellau melyn dwbl a fydd yn estyn hyd at 8 metr o'r gyffordd. Mae unrhyw estyniad ar y TRO presennol y tu allan i gwmpas y cynllun. Atgyfeirir y broblem hon at y Tîm TRO i'w hystyried ymhellach.

Y problem: Nid yw'r droedffordd yn ddigon llydan i'w rhannu.

Ymateb: Caiff rhannau o'r droedffordd ar Maes y Coed Road a drosir yn lonydd defnydd a rennir eu lledu lle bo angen er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon llydan i'w rhannu.